

COFNODION

Dyddiad 14 Tachwedd 2001
Amser 2.00-5.30pm
Lleoliad Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Presenoldeb

Aelodau

Alun Cairns
Chris Chapman
Glyn Davies
Ron Davies
Mike German
Christine Gwyther (Cadeirydd)
Alison Halford
Rhodri Morgan (fel y Gweinidog dros
Ddatblygu Economaidd)
Dafydd Wigley
Phil Williams
Janet Davies

Etholaeth

Gorllewin De Cymru
Cwm Cynon
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Caerffili
Dwyrain De Cymru
Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro
Delyn
Gorllewin Caerdydd

Caernarfon
Dwyrain De Cymru
Gorllewin De Cymru

Swyddogion

David Pritchard
Emyr Roberts
Damien O'Brien
Cathy Presland
Dennis Turner
Gerry Hallett
Rob Thomas
Ron Loveland
Janine Woods
Nick Batey
Roger Bonehill

Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd
Yr Is-adran Cynllunio Economaidd
Yr Is-adran Cynllunio Economaidd
Yr Is-adran Cynllunio Economaidd
Prif Weithredwr Masnach Cymru Ryngwladol
Masnach Cymru Ryngwladol
Masnach Cymru Ryngwladol
ISG
ISG
Uned Strategaeth TGCh
Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Yn Bresennol

Jake Chapman

Ymgynghorydd Arbenigol ar yr Adolygiad o Bolisi
Ynni

Ysgrifenyddiaeth

John Grimes
Sian Wilkins

Clerc
Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau: Yr oedd Janet Davies yn dirprwyo dros Brian Hancock.

Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther a Dafydd Wigley.

Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog.

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gan roi diweddariad byr ar lafar, y mae copi ohono yng nghlwm wrth ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Croesawyd lansio Cyllid Cymru gan yr Aelodau ond yr oedd rhai pryderon bod y gweithdrefnau i fusnesau bach wneud ceisiadau yn rhy fiwrocraataidd ac yn golygu bod angen cynhyrchu cynlluniau busnes drud. Atebodd y Gweinidog y byddai unrhyw fusnes sydd yn ceisio cyllid yn destun astudrwydd dyladwy ar lefel briodol a bod angen elfen o oruchwyliaeth. Ychwanegodd y swyddogion y byddent yn sicrhau bod Cyllid Cymru yn ymwybodol o bryderon yr Aelodau yn hyn o beth. Awgrymwyd y gallai Cyllid Cymru gynorthwyo â'r cynlluniau busnes. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio y byddai Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Menter yn cynorthwyo â'r cynlluniau busnes am ei fod yn faes a fyddai'n golygu mwy o lwyddiant i fusnesau bach.
3. Mynegwyd pryder y byddai'r derfynfa deithwyr newydd ym Mostyn yn cael effaith negyddol ar Gaergybi. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n fwy tebygol o amharu ar Lerpwl oherwydd yr amser teithio byrrach.
4. Pwysodd sawl Aelod ar y Gweinidog i ymchwilio ymhellach i'r ddamwain yng ngwaith dur Port Talbot. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi siarad â Corus eto ynghylch toriadau, a'u bod wedi cadarnhau na fu toriadau o'r blaen yn Ffwrnais Chwyth rhif 5. Gofynnodd yr Aelodau iddo geisio diffiniad Corus o doriadau, a gofynnodd yntau i'r Aelodau roi gwybodaeth fanylach iddo fel y gallai wneud hynny. Hysbysodd yr Aelodau ei fod yn disgwyl cais am y papurau yn ymwneud â chyfarfodydd a gafodd â Corus yn y gorffennol, fel rhan o ymchwiliadau'r heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

5. Croesawodd yr Aelodau archwiliad yr heddlu ond dywedwyd bod angen cadw mewn golwg bod gweithwyr yn codi materion diogelwch mewn cyfnod lle mae nifer fawr o swyddi'n cael eu colli.
6. Soniwyd bod y Gweinidog yn ei adroddiad i'r Cyfarfod Llawn y diwrnod cynt wedi dweud y gallai Corus ailadeiladu'r ffwrnais ac yr oedd ei ddefnydd o'r gair 'gallai' yn codi pryderon ynghylch dyfodol tymor hir y gwaith. Roedd goblygiadau yn hyn i'r diwydiant dur yn y DU. Gofynnodd rhai Aelodau i'r Gweinidog ystyried a ddylai ofyn i lywodraeth y DU ymyrryd pe deuai i'r pen gan fod dur yn cael ei ystyried fel diwydiant strategol yn y DU.
7. Atebodd y Gweinidog ei fod wedi defnyddio'r gair 'gallai' gan ei bod yn rhy fuan i Corus asesu'r difrod a phenderfynu ynghylch ailadeiladu'r ffwrnais chwyth. Ychwanegodd y byddai Port Talbot yn parhau i weithredu fel gwaith gorffennu yn y cyfamser a phwysodd ar yr Aelodau i beidio â dyfalu ynghylch dyfodol y gwaith ar hyn o bryd.
8. O safbwynt y datblygiad arfaethedig yn Aberporth, dywedodd y Gweinidog bod y WDA bellach yn bwrw ymlaen â pharc busnes yn yr ardal gyda phwyslais ar fusnesau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Cytunodd i hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

Eitem 3: Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Economaidd

1. Agorodd y Gweinidog y drafodaeth drwy gyfeirio at benderfyniad y Cabinet i beidio â chreu Bwrdd Polisi Economaidd. Dywedodd nad oedd y Cabinet wedi diystyru'r posibiliad, ond ei bod yn rhy fuan i wneud hyn ar hyn o bryd. Dywedodd fod ELWa wedi'i sefydlu ers 6-8 mis bellach a rhoddwyd swyddogaethau ychwanegol i'r WDA yn ddiweddar. Roedd angen rhoi amser i'r cyrff hyn gael dod i drefn a datblygu cyn ystyried a ddylid sefydlu corff 'penarglwyddiaethol' yn eu lle.
2. Wrth gyfeirio at gynlluniau'r Cabinet i sefydlu Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd ac Uned Ymchwil Economaidd, cyfeiriodd Damien O'Brien at astudiaeth a wnaethpwyd gan y swyddogion ar yr ymchwil economaidd presennol a'r anghenion at y dyfodol. Roedd hyn wedi cadarnhau'r angen i wella'r ddealltwriaeth o faterion economaidd sydd yn effeithio ar Gymru ac effaith polisiau a rhaglenni. Roedd hefyd angen cryfhau cydlynid strategol y gweithgaredd ymchwil a rhoi sylw i wendidau o ran galluoedd yn y Cynulliad ac ymysg sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Prin iawn oedd yr adnoddau a oedd gan y Cynulliad i gynnal dadansoddi economaidd. Ychydig iawn o arbenigedd mewn addysg uwch yng Nghymru a oedd ar gael, ac ni roddwyd lawer o sylw i economi Cymru a chwestiynau ynghylch polisi cyhoeddus cysylltiedig. Y tu allan i Gymru, roedd ymchwil polisi cyhoeddus yn gyffredinol berthnasol ond nid oedd yn canolbwyntio o reidrwydd ar yr atebion polisi a oedd yn berthnasol i Gymru. Bwriad cynlluniau'r Cabinet oedd rhoi sylw i'r materion hyn. Byddai'r Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd yn cynghori ar anghenion ymchwil ac yn hybu cydweithio. Byddai hefyd yn cynghori ar y ffordd orau i

ddatblygu gallu ac arbenigedd addysg uwch yng Nghymru i gyfrannu at yr agenda ymchwil.

3. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn siomedig iawn am y penderfyniad i beidio â sefydlu Bwrdd Polisi. Dywedwyd bod cefnogaeth drawsbleidiol, ac unfryd i raddau helaeth, gan y Pwyllgor i'r cynigion yn ei adroddiad. Dengys yr Adolygiad bod angen gwella'r cydlyniad o weithgareddau cymorth busnes a dileu dyblygu. Byddai'r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 2 o adroddiad y Gweinidog wedi'u trosglwyddo i'r Bwrdd Polisi ac effaith ei gynigion yn syml oedd gadael y dyblygu fel yr oedd.
4. Nododd yr Aelodau mai hwn oedd argymhelliad cyntaf a phwysicaf y Pwyllgor ac mai un elfen yn unig o rôl y Bwrdd Polisi oedd ymchwil a gwerthuso. Yn ogystal â hynny, byddai'n "sicrhau cydlyniad mewn polisïau a rhaglenni oddi wrth y Cynulliad a chyrff eraill". Cafodd hwn ei ystyried fel gofyniad allweddol i ddatblygu economi Cymru'n llwyddiannus ac roedd yn fodel a oedd wedi llwyddo yn Sweden ers y 1930au ac yn Iwerddon ers 20 mlynedd. Anodd oedd derbyn y ddadl bod angen amser ar yr WDA i ddod i drefn gan ei fod yn ymgymryd â'i rôl economaidd allweddol ers 25 mlynedd, er gwaethaf rhai newidiadau diweddar.
5. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod cynigion y Gweinidog wedi anwybyddu dymuniad a fynegwyd yn gryf gan y Pwyllgor i hybu partneriaeth â chyrff y tu allan i lywodraeth gan gynnwys Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach ac eraill.
6. Nid oedd yr Aelodau'n deall y ddadl bod y newid yn gynamserol. Roedd y Pwyllgor wedi llunio ei argymhellion fel set gydlynol o gamau gweithredu ond os oedd y Gweinidog yn derbyn na fyddai budd mewn sefydlu'r corff hwn yna sut y gallai ffurfio barn wahanol pan oedd y newidiadau diweddar wedi ymwreiddio. Os oedd gwrthwynebiad y Gweinidog yn wrthwynebiad mewn egwyddor i'r syniad o strwythur uwch, dylai ddweud hynny.
7. Roedd yr Aelodau'n pryderu hefyd bod y penderfyniad hwn yn arwydd o wrthwynebu mwy eang i'r bartneriaeth yn y Cynulliad ac yn adlewyrchu barn y Cabinet y byddai penderfyniadau ar faterion pwysig fel hyn yn cael eu gwneud ganddynt hwy heb ystyried barn fwy cyffredinol. Ymddenygs nad oedd awydd i fabwysiadu polisïau a oedd yn hawlio cefnogaeth y Cynulliad ehangach.
8. Wrth ymateb, pwysleisiodd y Gweinidog bod y penderfyniad i beidio â sefydlu'r Bwrdd Polisi wedi ei wneud gan y Cabinet. Ym marn y Cabinet, y cynigion oedd y ffordd orau o drefnu i gasglu a chomisiynu gwybodaeth ac ymchwil economaidd a byddent yn sicrhau bod hyn yn darparu 'gwerth ychwanegol' pendant. Ailadroddodd nad oedd ELWa wedi dod i drefn eto fel corff newydd ac na ddylid ystyried y WDA fel corff sydd heb newid ers 25 mlynedd. Rhoddwyd swyddogaethau ychwanegol o bwys iddo ers 1997.
9. Roedd y ddwy asiantaeth wedi arwyddo concordat i weithio gyda'i gilydd, a'u gwaith hwy a'r Cynulliad oedd sicrhau bod hyn yn digwydd. Nid oedd yn credu ei bod yn iawn rhoi corff cyffredinol uwch eu pen. At hynny, ni welai fod modd sefydlu corff o'r fath heb iddo ddatblygu'n gorff cyhoeddus a noddir gan y

Cynulliad, a oedd yn amhriodol ar adeg pan oedd y Cynulliad wedi lleihau nifer y cyrff o'r fath. Nid oedd yn derbyn y gymhariaeth ag Iwerddon oherwydd nid oedd y corff hwnnw yn meddu ar yr ystod eang o swyddogaethau a oedd gan ELWa.

10. Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch a fyddai'r Bwrdd Polisi yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gyda'r Aelodau yn dadlau mai argymell fyddai ei swyddogaeth yn hytrach na phenderfynu ar ddatblygu polisi.
11. Gwrthododd y Gweinidog yr honiad nad oedd y Cabinet yn fodlon derbyn cyngor gan Bwyllgorau a chyrrff eraill a thynnodd sylw at y ffaith eu bod yn yr achos hwn, ac mewn achosion eraill, wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a roddwyd iddo. Fodd bynnag, wrth ganolbwyntio ar yr agweddau a wrthodwyd, yr oedd beirniaid yn colli golwg ar yr argymhellion a dderbyniwyd.

Eitem 4: Masnach Cymru Ryngwladol

1. Cyflwynodd Dennis Turner yr eitem, gan ddiolch i'r Pwyllgor am roi amser i Masnach Cymru Ryngwladol egluro eu cynnydd. Rhoddodd grynodedb o'r gwaith a wnaed yn ystod eu 18 mis cyntaf a thynnodd sylw at yr angen am y Strategaeth Masnach Ryngwladol yr oeddent yn ymgynghori arni ar hyn o bryd gyda phartneriaid. Yr oedd y strategaeth ddrafft i fod i'w dosbarthu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn y Flwyddyn Newydd gyda'r bwriad o gyhoeddi'r Strategaeth derfynol ym mis Ebrill neu fis Mai y flwyddyn nesaf.
2. Mewn ateb i gwestiynau oddi wrth yr Aelodau dywedodd fod ganddynt gysylltiadau gweithredol agos â Bwrdd Croeso Cymru ond cydnabu mai'r bwrdd twristiaeth oedd yn adnabod ei fusnes orau. Dywedodd fod Bwrdd Croeso Cymru o'r farn mai'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig oedd ei bartner allweddol dramor. Fodd bynnag, yr oedd Masnach Cymru Ryngwladol yn ceisio cryfhau ei gynrychiolaeth dramor ac o blith y chwe swyddfa dramor newydd a gynigiwyd, byddai dwy neu dair â'r brand Wales World Nation gan gynnwys cynrychiolaeth o Masnach Cymru Ryngwladol, Bwrdd Croeso Cymru, y WDA ac eraill.
3. Roedd Masnach Cymru Ryngwladol wedi sefydlu pedwar grwp ffocws rhanbarthol â'r mwyafrif o'u haelodau o'r sector preifat. Er hyn, roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r WDA a siambrau masnach lleol ac yr oedd y grwpiau hyn yn porthi Masnach Cymru Rhyngwladol a'r Fforymau Masnach Ryngwladol yn uniongyrchol.
4. Gan gyfeirio at y Gymdeithas Allforio, cadarnhaodd fod y Gymdeithas yn gontractiwr i Masnach Cymru Ryngwladol. Dywedodd fod cyllid oddi wrth Masnach Cymru Ryngwladol yn 86% o drosiant y Gymdeithas. Roedd y contract i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2002 ac roeddent wrthi'n adolygu'r ffordd orau o symud ymlaen wedi hyny. Mynegwyd pryder bod Masnach Cymru Ryngwladol yn ystyried gwneud y swyddogaeth hon yn un fewnol ond dywedodd Masnach Cymru Ryngwladol eu bod yn ystyried nifer o ddewisiadau ac y byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud yn ôl y gwerth gorau am arian.
5. Cyfeiriodd at y cysylltiadau cryf a oedd gan Masnach Cymru Ryngwladol â'r WDA

y tu mewn a thu allan i Gymru. Yn ogystal â chysylltiadau dramor, cyfeiriai'r WDA gwmnïau atynt a oedd yn dymuno ffurfio cysylltiadau rhyngwladol.

6. Ar hyn o bryd, roedd Masnach Cymru Ryngwladol yn ceisio hybu ymwybyddiaeth ymysg cwmnïau yng Nghymru am ehangu'r UE a'r Ewro drwy gyfrwng nifer o ddiwyddiadau lleol a seminar a gynhaliwyd yn ystod Diwrnod Masnach Ryngwladol. Yr oedd yn bwysig bod cwmnïau yng Nghymru yn deall y bydd angen iddynt allu masnachu yn yr Ewro er mwyn cadw mantais gystadleuol, Roeddent hefyd yn weithredol ar hyn o bryd mewn nifer o wledydd a fydd yn ymuno.
7. Wrth gloi, cyfeiriodd Masnach Cymru Ryngwladol at y cysylltiadau cryf sy'n cael eu ffurfio ag UDA a dywedwyd eu bod wedi derbyn dirprwyaethau yn ddiweddar o'r Pentagon a Boeing. Yr oeddent hefyd yn gweld bod gwell cyfleoedd ar hyn o bryd yn y Dwyrain Canol i gwmnïau o Gymru.

Eitem 5: Adolygiad o Ynni

1. Cyflwynodd y Cadeirydd Jake Chapman, ymgynghorydd arbenigol y Cynulliad ar gyfer yr Adolygiad o Bolisi Ynni a benodwyd yn ddiweddar. Amlinellodd y materion allweddol yn y papur a thynnodd sylw at newid Cylch Gorchwyl yr Adolygiad i ganolbwyntio ar 2020 yn hytrach na 2010. Dywedodd yr awgrymwyd ar ôl cyfarfod y Grwp Cyfeirio, y dylai'r Pwyllgor drafod y cynhesu byd-eang yn gyntaf am ei fod yn hanfodol i ddatblygiad polisi ynni. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor roi sylw i'r testun fel cyfres o bynciau er mwyn ei alluogi i wneud argymhellion yn gynnar. Y testun cyntaf y dylid ei astudio yw ynni adnewyddadwy.
2. Gan bwysleisio pa mor bwysig oedd edrych ar y cynhesu byd-eang yn gyntaf, dywedodd Jake Chapman bod hyn yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel prif ysgogydd polisi ynni ac y dylai'r Pwyllgor achub ar y cyfle i gael sicrwydd o hynny. Soniodd hefyd am y gofyniad i 10 y cant o'r holl ynni ddod o ffynonellau adnewyddadwy oddi mewn i'r DU ac oddi mewn i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.
3. Nododd yr Aelodau y blaenoriaethau ym mharagraff 3 o'r papur a chytunwyd â'r strategaeth fras o ymdrin â'r mater fel cyfres o bynciau ac mai Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni a ddylai fod yn bynciau cyntaf, a'u dilyn gan Wres ac Ynni Cyfunol a Ffactorau sy'n Llywio'r Economi. Cytunwyd hefyd ar yr amserlen ddiwygiedig ac i ymestyn aelodaeth y Grwp Cyfeirio i gynnwys cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol.
4. Nododd yr Aelodau yn glir ei bod yn ffafrio cynnal yr holl sesiynau tystiolaeth yn gyhoeddus a chytunwyd, oherwydd baich y gwaith, y dylid cysylltu â'r Pwyllgor Busnes i gael caniatâd i ddefnyddio'r sesiynau 'ychwanegol' ar 10 Ionawr a 7 Chwefror ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor. Cytunwyd hefyd i ystyried a ellid cynnal cyfarfodydd yng ngogledd Cymru ac a fyddai'n bosibl cynnal sesiynau drwy ddefnyddio fideogynadleda er mwyn lleihau'r teithio gan Aelodau.
5. Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd Syr John Houghton i siarad â'r pwyllgor am

y cynhesu byd-eang ac y dylid gwahodd aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i'r cyfarfod hwnnw.

6. Nododd yr Aelodau ddymuniad i ymgymryd ag ymweliadau pellach, yn enwedig â chyfleusterau sydd yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Soniwyd hefyd am burfa olew ELF a Pharc Ynni Baglan. Gofynnwyd i'r Clerc baratoi rhestr o ymweliadau posibl a'i chylchredeg i'r Aelodau er mwyn iddynt ei hystyried ac ychwanegu ati.
7. Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch a ddylid ymestyn yr Adolygiad i gynnwys trafndiaeth am ei bod yn ffynhonnell gollyngiadau carbon o bwys. Yr oedd rhai o'r Aelodau o'r farn y dylai'r Adolygiad ganolbwyntio ar faterion economaidd sydd yn ymwneud â pholisi ynni ac y dylai geisio sicrhau buddion busnes ac economaidd pendant. Pe byddai'r astudiaeth yn rhy eang byddai perygl iddi golli ei chanolbwynt. Ar ôl pwysio a mesur, daethpwyd i'r casgliad y byddai cynnwys ynni trafndiaeth yn cynyddu maint a chwmpas yr Adolygiad at lefel anymarferol.

Eitem 6: Materion Economaidd TGCh

1. Cyflwynodd Janine Woods y papur gan ddweud mai ei fwriad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar waith yn y maes hwn ers y papur a ddarparwyd cynt gan Andrew Davies, y gweinidog e-fusnes.
2. Cadarnhaodd Phil Williams y byddai ei bapur ef ar TG, a addawyd i Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar gael yn fuan.
3. Cytunodd yr Aelodau bod TG yn faes mewn polisi Datblygu Economaidd yr oedd angen rhoi mwy o flaenoriaeth iddo nag a roddwyd cynt. Barnwyd ei bod yn holl bwysig i allu cystadleuol busnesau yng Nghymru.
4. Roedd pryderon y byddai'r ddarpariaeth o'r Ystod Lydan a amlinellwyd gan y Gweinidog yn y cyfarfod diwethaf yn costio mwy o lawer na'r swm a ddyrannwyd yng nghyllideb y Cynulliad, oherwydd cyfyngiadau technegol.
5. Cyfeiriwyd at gyhoeddi papur yn ddiweddar gan y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar yr ystod lydan a gofynnwyd a ellid ei gylchredeg i'r holl Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**
6. Cytunodd yr Aelodau bod cysylltiad y sector preifat â darparu'r ystod lydan yn holl bwysig. Er y byddai darparu'r ystod lydan ar gyfer y sector cyhoeddus yn cynyddu'r galw, teimlwyd bod y defnydd o rwydweithiau presennol y sector preifat yn bwysig. Roedd angen bod yn ofalus er mwyn sicrhau nad oedd rhwydwaith sector cyhoeddus caeëdig yn cael ei greu a oedd yn cau allan y sector preifat.
7. Mynegwyd pryder hefyd na ddylid dyblygu rhaglenni a gwasanaethau cymorth TGCh, a chyfeiriwyd yn arbennig at Ganolfannau Cymorth. Cadarnhaodd y swyddogion fod ymarfer mapio ar y gweill ar hyn o bryd o'r holl Ganolfannau Cymorth.
8. Croesawodd yr Aelodau y newyddion y byddai Cynllun Gweithredu'r Dadansoddiad yn barod yn Ionawr 2002 a dywedwyd ei bod yn bwysig i Gymru

fod ar y blaen. Credwyd bod darparu'r ystod lydan yr un mor bwysig ag yr oedd cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn y ganrif ddiwethaf.

9. Roedd cydsyniad cyffredinol ei bod yn bwysig peidio â chanolbwyntio ar un maes technoleg yn unig a bod yr hyn a ddarperid yn awr yn addas hefyd i anghenion defnyddwyr ymhen pump neu 10 mlynedd.
10. I gloi, nododd y swyddogion bod Cymru Arlein wedi'i sefydlu i ymdrin â materion trawsbynciol. Cytunwyd bod angen cymharu costau ar lefel ryngwladol ond nad oedd yr wybodaeth honno ar gael ar hyn o bryd. Cytunwyd hefyd y byddai'r defnydd o'r ystod lydan gan y sector cyhoeddus yn creu galw ac felly byddai'r costau yn fwy ymarferol i gymunedau a busnesau.

Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor